ADRAN 1

Manteision dysgu a hyfforddiant i'ch Cynorthwywyr Personol a chi

Mae buddsoddi yn dysgu a hyfforddiant eich Cynorthwywyr Personol yn bwysig ac yn cynnig nifer o fanteision. Mae'n gallu gwella:

- gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau eich Cynorthwywyr Personol
- y ffordd y mae eich Cynorthwywyr Personol yn eich cynorthwyo
- hyder eich Cynorthwywyr Personol
- boddhad swydd eich Cynorthwywyr Personol
- y berthynas gadarnhaol rhyngoch chi a'ch Cynorthwywyr Personol

Mae hefyd yn eich helpu i :

- gyflawni eich cyfrifoldebau fel cyflogwr ac yn eich galluogi chi a'ch Cynorthwywyr Personol gael y wybodaeth ddiweddaraf am gyfreithiau perthnasol a ffyrdd o weithio'n ddiogel
- bodloni gofynion yswiriant

Mae buddsoddi yn dysgu a hyfforddiant eich Cynorthwywyr Personol yn dangos eich bod yn eu gwerthfawrogi.

"Mae'n bendant wedi fy ngwneud i'n Gynorthwyydd Personol gwell – dydw i ddim wedi newid ond rydw i'n fwy cymwys, ac rydw i'n meddwl mwy am bethau – fel diogelu, iechyd a diogelwch." Cynorthwy-ydd Personol a gwblhaodd Ddiploma Iechyd a Gofal Cymdeithasol (FfCCh) Lefel 3

"Dysgais am bethau doeddwn i byth yn eu gwybod – cyfrinachedd, diogelu a methiant difrifol. Fe wnaethom ni feddwl am sefyllfaoedd anodd fel y byddwn i'n gwybod sut i ddelio â phethau o ran fy nyletswydd gofal", Cynorthwy-ydd Personol a gwblhaodd Ddiploma Iechyd a Gofal Cymdeithasol (FfCCh) Lefel 3

*"*Cafodd llawer o wybodaeth ei rannu y gallwn ei defnyddio yn fy ngwaith", Cynorthwy-ydd Personol a gwblhaodd Cyflwyniad i Weithio fel Cynorthwy-ydd Personol ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol